CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Braint ac anrhydedd yw i mi gael cyflwyno'r rhagair hwn ar gyfer yr adroddiad blynyddol.

Blwyddyn arall wedi mynd heibio yn hanes y Gymdeithas, a dyma ni'n paratoi i nodi chwarter canrif ers ei sefydlu. Eleni, rydym yn falch gweld bod y rhan fwyaf o eisteddfodau wedi cael eu cynnal ar lwyfan, a diolch i'r pwyllgorau am ail-gydio yn yr awennau i drefnu.

Yn ystod y flwyddyn collwyd sawl eisteddfodwr o fri, ac mae ein cydymdeimlad yn ddwys iawn gyda'r teuluoedd hyn. Bydd y golled ar eu hôl yn enfawr.

Rydym mor falch, fel swyddogion gwirfoddol, bod Lois ac Aled yn cydweithio mor dda gyda'i gilydd, ac yr ydym gant y cant tu ôl i'r ddau ym mhob dim y maent yn ei wneud er lles y Gymdeithas a phwyllgorau'r Eisteddfodau.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Gwmni Teithiau Elfyn Thomas am noddi ein raffl flynyddol, gan fod hyn yn gwneud llawer o wahaniaeth i goffrau'r Gymdeithas. Ry'n ni hefyd yn ddiolchgar i'r holl bwyllgorau sydd yn talu tâl aelodaeth o £20 y flwyddyn, a manteisiwn ar y cyfle hwn i atgoffa'r pwyllgorau hynny sydd heb wneud hynny, i ymaelodi mor fuan â phosib os gwelwch yn dda.

Cafwyd sawl eitem ar newyddion radio a theledu, a gwefannau Golwg360, BBC Cymru Fyw a'r Papurau Bro, heb sôn am yr holl sylw ar ein cyfryngau cymdeithasol – y cyfan yn codi proffil y Gymdeithas ac yn rhoi hwb i'r eisteddfodau lleol yn eu tro.

Braf yw cael bod yn ôl gyda stondin yn y ddwy Eisteddfod Genedlaethol eleni eto, â'r ddau swyddog wedi gweithio yn galed iawn i baratoi cyn ac yn ystod y ddwy ŵyl. Cytunodd y ddau i ymweld â rhai pwyllgorau eisteddfodol yn ystod y flwyddyn i gynnig clust neu syniad gyda materion ymarferol, ac mae hyn yn golygu llawer i ambell i Eisteddfod sy'n ei chael hi'n anodd i ail-gychwyn ar ôl y toriad oherwydd Cofid. Eleni cynhaliwyd 2 gyfarfod wyneb yn wyneb gyda chynrychiolwyr eisteddfodau yn y Gogledd, ac mae dau gyfarfod pellach i'w trefnu yn y De a'r Canolbarth cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Gwelwyd cynnydd mawr yn y bobl sy'n defnyddio ein tudalen Facebook a chyfri' Twitter, ac erbyn hyn ein gwefan newydd hefyd. Mae tipyn o waith wedi mynd mewn i baratoi hon ac mae'n werth ei gweld. Erbyn hyn mae gan y Gymdeithas gyfrif "Instagram" ac "You-Tube" hefyd. Wrth ddefnyddio'r cyfryngau yma rydym ni'n ychwanegu at y modd yr ydym yn medru rhannu negeseuon a chysylltu gydag eraill yn rhwydd ac am ddim! Teimlen ei bod hi'n bwysig i ni ddefnyddio'r adnoddau hyn er mwyn lledaenu'r neges am waith y Gymdeithas, a hynny mor eang â phosib. Hefyd mae mwy o bobl wedi cofrestru i dderbyn Steddfota, sef newyddlen y Gymdeithas, yn ystod y flwyddyn, a hynny drwy'r post a thrwy e-bost - hyn eto yn brawf bod y diddordeb mewn digwyddiadau eisteddfodol ar i fyny. Y gobaith yn ystod y misoedd nesaf fydd i gael noddwr ar gyfer 'Steddfota - bydd hyn eto yn cryfhau ein proffil ac yn gwella ein sefyllfa ariannol.

Bu ein gwefan o ddefnydd mawr i'r eisteddfodwyr, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am yr eisteddfodau yn cael ei nodi a'i ddiweddaru er budd y defnyddwyr. Braf yw gweld bod cymaint o eisteddfodau wedi cael eu trefnu yn ystod y flwyddyn, gan fod cynnal eisteddfodau lleol yn bwysig er mwyn bwydo'r ddwy Eisteddfod Genedlaethol. Heb y rhai lleol ni fyddai modd cynnal y ddwy fawr. Felly cofiwch gefnogi yn lleol yn gyntaf, ac wedyn yn genedlaethol. Mae angen yr Eisteddfodau lleol hyn ar Gymru benbaladr i gadw'r traddodiad yn fyw.

Rydym yn ddiolchgar i Isadran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru am ddyfarnu grant blynyddol ac am gynnig arweiniad strategol sydd yn ein galluogi i gyflawni ein cenadwri. Byddwn yn parhau i gyfrannu'n adeiladol at waith Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg y Llywodraeth drwy drafod cynlluniau i warchod ac ymestyn apêl y Gymraeg o fewn ein cymunedau.

Edrychwn ymlaen at ddathlu pen-blwydd y Gymdeithas yn ystod penwythnos yr 20fed a'r 21ain o Hydref (gweler y manylion ar y dudalen gefn), a chael cyfle i edrych yn ôl dros bum mlynedd ar hugain o weithgarwch a chydweithio.

Wrth derfynu rwyf am dalu teyrnged i'm cyd-swyddogion, i aelodau o'r pwyllgor ac i Lois ac Aled am eu gwaith diflino er budd y Gymdeithas, ac wrth gwrs er lles ein heisteddfodau ym mhob cwr o Gymru. Carem ddiolch hefyd am lafur cariad cyson a brwdfrydig swyddogion pwyllgorau eisteddfodau lleol drwy'r wlad, sydd yn cadw'r etifeddiaeth eisteddfodol yn fyw.

Yn gywir
Megan Jones Roberts
Cadeirydd y Gymdeithas

CYFARFOD BLYNYDDOL
CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU
8 AWST 2023

AGENDA

1. Croeso gan y Cadeirydd – Megan Jones Roberts
2. Ymddiheuriadau
3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf (Awst 2022)
4. Unrhyw faterion yn codi
5. Sylwadau byr gan y Cadeirydd am ddatblygiadau'r flwyddyn
6. Cyflwyniad Pwerbwynt gan y Swyddog Datblygu a'r Swyddog Cyfathrebu ar weithgareddau a datblygiadau'r flwyddyn
7. Derbyn yr adroddiad ariannol
8. Ethol Swyddogion

- Cadeirydd
- Is-gadeirydd
- Trysorydd
- Ysgrifennydd

8. Unrhyw fater arall o bwys
9. Anerchiad gan Ellis Wyn Roberts i nodi 25 mlynedd ers sefydlu'r Gymdeithas
10. Cyfle i holi cwestiynau

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU: 2 AWST 2022

Yn bresennol: Megan Jones Roberts (Cadeirydd), Bill Davies (Is-gadeirydd), Gwyn Parry Williams (Ysgrifennydd), Gareth Jones (Trysorydd), Aled W. Phillips (Swyddog Datblygu), Lois Williams (Swyddog Technegol) ynghyd ag oddeutu 80 o gynrychiolwyr o wahanol eisteddfodau.

Ymddiheuriadau: , Rhian Jones (Uwchmynydd)

Croeso: Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod

1. Cofnodion: Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 2 Awst 2021.

2. Adroddiad y Cadeirydd ar ddatblygiadau'r flwyddyn:

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y materion canlynol –

- Aeth blwyddyn arall eithaf anodd heibio yn hanes y Gymdeithas, a blwyddyn sydd wedi bod yn heriol a gwahanol ar y cyfan. Cynhaliwyd ambell i eisteddfod erbyn hyn ar lwyfan a sawl un wedi digwydd yn rhithiol hefyd.
- Yn ystod y flwyddyn, collwyd sawl aelod o Bwyllgor y Gymdeithas a sawl eisteddfodwr o fri a chydymdeimlir yn ddwys iawn â theuluoedd yr unigolion hyn. Bydd colled enfawr ar eu hôl.
- Pan ddechreuodd Aled Phillips fel Swyddog Datblygu'r Gymdeithas, gwelwyd llawer o syniadau newydd, rhai sydd wedi dwyn ffrwyth mewn gwahanol ffyrdd yn barod. Mae Lois Williams ac yntau'n cydweithio mor dda â'i gilydd, ac mae'r swyddogion gant y cant tu ôl iddynt ym mhob dim maent yn ei wneud er lles y Gymdeithas a'r Eisteddfodau.
- Cafwyd sawl eitem ar newyddion radio a theledu, rhaglen Shân Cothi ar Radio Cymru a gwefannau Golwg360 a BBC Cymru Fyw a Phapurau Bro, heb son am yr holl sylw ar y cyfryngau cymdeithasol a rhaglenni Prynhawn Da a Heno.
- Cafwyd stondin yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych eleni, a'r ddau swyddog wedi gweithio'n galed iawn i baratoi cyn ac yn ystod yr wythnos. Cytunodd y ddau i ymweld â rhai eisteddfodau lleol yn ystod y flwyddyn i gynnig cymorth neu syniadau gyda materion ymarferol ac i ddangos cefnogaeth.
- Gwelwyd cynnydd unwaith yn rhagor yn y bobl sy'n defnyddio'r dudalen Gweplyfr a chyfri Twitter a bydd modd gweld gwefan newydd y Gymdeithas yn y dyfodol agos. Ers y llynedd mae gan y Gymdeithas safle YouTube hefyd. Cofrestrodd mwy o bobl i dderbyn Steddfota yn ystod y flwyddyn, a hynny drwy'r post a thrwy e-bost.
- Mae gwefan y Gymdeithas wedi bod yn ddefnyddiol iawn yn ystod y cyfnod anodd hwn, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ynglyn â sefyllfa'r eisteddfodau'n cael ei nodi a'i ddiweddaru er budd y defnyddwyr.
- Diolch i Llywodraeth Cymru am y grant ychwanegol o £10,000 a dderbyniwyd ganddynt i'w ddefnyddio'n rhannol tuag at greu gwefan newydd.
- Mae Elfyn Thomas a'i Gwmni yn fodlon noddi'r raffl unwaith yn rhagor flwyddyn nesaf ac mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar iawn iddo.

Disgwylir y bydd Jeremy Miles, Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru, yn ymweld â'r stondin dydd Iau.

Diolchodd i'r ddau swyddog am eu gwaith diflino er budd y Gymdeithas ac hefyd i'r ysgrifennydd, trysorydd a'r is-gadeirydd ac aelodau'r pwyllgor.

3. Adroddiadau'r Swyddogion:

Cyfeiriodd y Swyddog Datblygu a'r Swyddog Technegol at y materion canlynol –

- Nododd y Swyddog Datblygu ei fod yn y swydd ers tros blwyddyn.
- Blwyddyn yn ôl cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol a nifer o wahanol cwis dros Zoom.
- Cynllun "Agorwch y Drysau" – nododd mai bwriad y cynllun oedd cynnig cyfle i aelodau, cyfeillion a threfnwyr eisteddfodau i ymuno mewn cyfres o sesiynau panel misol tros Zoom er mwyn helpu magu hyder, creu egni o'r newydd a sicrhau cynulleidfaoedd pan fyddai'n briodol i wneud hynny.
- Mewn perthynas â Steddfota, gwelwyd cynnydd yn ystod y flwyddyn, yn y nifer sydd wedi cofrestru i'w dderbyn drwy'r post a thrwy e-bost. Mae'r rhifyn diweddaraf wedi ei gyhoeddi.
- Ymwelwyd a sawl eisteddfod leol yn ystod y misoedd diwethaf sef Eisteddfod Ieuenctid Marianglas, Eisteddfod Talaith Powys, Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid, Eisteddfod Gadeiriol Mynydd y Garreg ac Eisteddfod Dihewyd. Yn ogystal mynychwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych.
- Calonogol yw gweld y cynhelir oddeutu 19 eisteddfod leol rhwng Awst a Rhagfyr 2022.
- Manylwyd ar y gwahanol gystadlaethau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Mewn perthynas â Chystadleuaeth Gorawl y Gymdeithas yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, ymddangosodd 8 côr ar y llwyfan a'r enillwyr oedd 1af – Côr Caerdydd; 2il Côr Dre; 3ydd Côr Hafodwennog. Cynhaliwyd hefyd yn ystod wythnos yr eisteddfod, Gystadleuaeth Perfformio Darn Digri dan nawdd y Gymdeithas. Ymddangosodd pedwar yn y rhagbrawf a thri ar y llwyfan a'r enillydd oedd Gwion Bowen o Sir Benfro. Cyfeiriwyd at Gystadleuaeth Tlws yr Ifanc 2022/23 i rai dan 25 oed sef darn o farddoniaeth neu ryddiaith ar unrhyw ffurf, hyd at 2,000 o eiriau.
- Gweplyfr a Twitter – hyd yn hyn 'roedd 2,610 o ddilynwyr ar y Gweplyfr a 965 ar Twitter.
- Gwasanaeth Dylunio – nodwyd bod dylunio posteri, rhaglenni, tystysgrifau a.y i'w gael am ddim.
- Y Wefan – un o flaenoriaethau'r Gymdeithas ar gyfer misoedd cyntaf 2022 oedd ail-wampio'r wefan, gan edrych ar symleiddio'r gosodiad presennol a sicrhau cynnwys darllenadwy, clir a chryno. Penderfynwyd gofyn i Mei Mac ddylunio'r wefan newydd. Yn ystod misoedd Ebrill a Mai 2022 cafwyd cyfarfodydd Zoom gyda Mei i gael trafodaethau pellach ar osodiad/diwyg y wefan newydd, i weld ei syniadau a hefyd gweld beth fyddai'n gweithio orau i'r Gymdeithas a defnyddwyr y wefan. Mae'r hyn a greodd Mei hyd yn hyn yn edrych yn wych – yn ffres, clir a chryno. I gyd-fynd â'r newidiadau hyn, mae'r logo wedi ei ddatblygu er mwyn adlewyrchu gwedd mwy deinamig a chyfoes. Golyga'r newidiadau hyn y bydd cyfeiriad e-bost y Gymdeithas yn newid. Disgwylir y bydd y wefan newydd yn weithredol yn ystod yr wythnosau/misoedd nesaf.
- Newidiadau i delerau bancio HSBC – datganwyd pryder gan sawl eisteddfod llynedd am gynlluniau Banc HSBC i newid eu telerau ar 1 Tachwedd 2021 a olygai costau ychwanegol i elusennau a chymdeithasau gwirfoddol. Cytunodd y Gymdeithas i ofyn i Fanc HSBC ailystyried eu cynlluniau ac anfon copi o'r llythyr at yr aelodau seneddol perthnasol yn San Steffan a Senedd Cymru. Derbyniwyd ymateb calonogol gan rai o'r aelodau yn ogystal â sylw yn y Wasg.

Diolchodd y Cadeirydd i Aled a Lois am yr adroddiad.

4. Adroddiad y Trysorydd

Cyflwynodd y Trysorydd y fantolen a oedd yn dangos yr incwm a'r gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mai 2022.

Cytunodd y Cyfarfod Blynyddol i dderbyn y fantolen ariannol.

5. Ethol Swyddogion

(Cymerwyd y gadair ar gyfer ethol Cadeirydd gan Terwyn Tomos)

Ailetholwyd y canlynol yn swyddogion am 2022/23 –

Cadeirydd – Megan Jones Roberts
Is-gadeirydd – Bill Davies
Trysorydd – Gareth Jones
Ysgrifennydd – Gwyn Parry Williams

Diolchwyd i Megan Jones Roberts am ei gwaith fel Cadeirydd y Gymdeithas.

6. Anrhydeddu Gwirfoddolwyr

Ar derfyn y cyfarfod, cynhaliwyd seremoni i anrhydeddu'r gwirfoddolwyr canlynol sydd wedi gweithio'n ddiflino er budd eisteddfodau lleol trwy Gymru tros nifer helaeth o flynyddoedd. Cadeiriwyd y seremoni gan Megan Jones Roberts, Cadeirydd y Gymdeithas, gyda Garry Owen, BBC Cymru yn cyflwyno'r tystysgrifau i –

Yvonne Lewis – Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog
Y diweddar Gwyneth Williams (Gwyneth o'r Epynt) – Eisteddfod Trallong
Dorian Reeve a Wendy Henry – Eisteddfod Gadeiriol Mynydd y Garreg
Eirian Jenkins, Margaret Thomas, Doreen Sisto a Dennis ac Elizabeth Griffiths – Eisteddfod Gadeiriol Abergorlech
Geraint James – Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch
Parch Andrew Tweed – Eisteddfod y Plant, Llandrindod
Vera Davies – Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis
Enid Rhian Williams a Linda Williams – Eisteddfod Gadeiriol Chwilog
Bronwen Jones, Eleri Roberts, Eirian Jones, Lynda Thomas, Mailys Evans, Greta Jones, Menna Richards – Eisteddfod Gadeiriol Llanrhaeadr ym Mochnant
Eileen Jones – Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn
Glyn Lewis – Eisteddfod Gadeiriol Tregaron
Janet Thomas – Eisteddfod Castell Newydd Emlyn a'r Cylch
Beti Jones a Beryl Griffith – Eisteddfod Bro Llandegfan
Eiddwen Jones, Helen Roberts a Margaret Roberts – Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn
Parch Wyn Thomas – Eisteddfod Capel y Fadfa, Talgarreg
Parch Stephen Morgan – Eisteddfod Gadeiriol Felinfach
Llŷr Iwan Evans – Eisteddfod Bancffosfelen
Dewi Edwards, John Rhys Evans ac Eiddwen Jones – Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint

ANRHYDEDDU 2023

Eryl Huw Jones	Eisteddfod Môn
Gwyneth Roberts	Eisteddfod Gadeiriol Chwilog
Sulwen Edwards	Eisteddfod Gadeiriol Chwilog
Eurfryn Griffith Davies	Eisteddfod Bro Llandegfan
Mair Owen	Eisteddfod Gadeiriol Mynytho
Gwen Owen	Eisteddfod Garndolbenmaen
Melfyn Williams	Eisteddfod Calan Mai, Betws yn Rhos
Hefin O. Lloyd	Eisteddfod Llawrplwy' a Phenstryd, Trawsfynydd
Jane Jones	Eisteddfod Bro Aled, Llansannan
Dilwyn Thomas	Eisteddfod Gadeiriol Mynytho
Carol Metcalfe	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst
Robert J. Ellis	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst
Nan Davies	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst
Huw Elwyn Roberts	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst
Arfon Williams	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst
Eirlys Hughes	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst
Janet Warren	Eisteddfod Dyffryn Ceiriog
Douglas Hughes Jones	Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn
Sandra Moore	Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn
Gwilym Griffiths	Eisteddfod Gadeiriol Y Ffôr
Mair Roberts	Eisteddfod Gadeiriol Y Ffôr
Menna Hughes	Eisteddfod Gadeiriol Y Ffôr

INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAI 2023

	2023	2022
	£	£
INCWM		
Llywodraeth Cymru	56,979	46,849
Grant arall	400	938
Tanysgrifiadau	1,520	1,310
Raffl y Gymdeithas	1,137	20
Llôg y Banc	42	2
	60,079	**49,119**
GWARIANT		
Cyflogau Swyddogion	34,943	29,874
Costau swyddfa	3,173	3,995
Gweithgareddau eisteddfodau	5,057	1,279
Eisteddfodau Cenedlaethol	13,538	
Argraffu a phrynu nwyddau ac offer eraill	3,467	3,802
Diweddaru'r wefan	2,379	6,175
Costau rheolaeth a gweinyddol	1,022	416
	63,579	**45,541**
Gweddill am y flwyddyn	**(3,500)**	**3,578**
Mantolen ar ddiwedd y flwyddyn		
ASEDAU CYFREDOL		
Dyledwyr	13,383	4,592
Arian yn y banc	1,961	31,562
	15,344	**36,154**
Credydwyr		
Credydwyr – dyledus o fewn blwyddyn	(3,094)	(782)
Incwm gohiriedig	0	(19,622)
Asedau net	**12,250**	**15,750**
CRONFA WRTH GEFN		
Ar ddechrau'r flwyddyn	15,750	12,172
(Diffyg) / Gweddill am y flwyddyn	(3,500)	3,578
Ar ddiwedd y flwyddyn	**12,250**	**15,750**

Penwythnos pen-blwydd

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

Pryd o Drafod

Nos Wener
20 Hydref 2023 @ 7pm

Gwledd o atgofion wrth ddathlu pum mlynedd ar hugain ers sefydlu Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.

Person gwadd –
Elin Jones, Llywydd y Senedd

Adloniant –
Aled Wyn Davies, Triano, Parti Camddwr

Tocyn –
Manylion cyn bo hir ar ein gwefan

Noson Lawen

Nos Sadwrn
21 Hydref 2023 @ 7pm

Noson yng nghwmni –
Meibion y Mynydd, Merched Soar, Drudwns Aber ac Iwcadwli

Arweinydd –
Clive Edwards

Tocyn –
£10 (oedolion) £5 (dan 16 oed)

YNG NGWESTY'R MARINE, ABERYSTWYTH

YouTube

www.steddfota.cymru

MAE CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU YN ELUSEN GOFRESTREDIG. RHIF YR ELUSEN: 1079429